# DIWEDDARIAD PROSIECT - GWANWYN 2025

Helo o dîm Morwellt Achub Cefnfor Gogledd Cymru. Wrth i ni fynd i mewn i fisoedd yr haf, hoffem rannu ein diweddariadau o hanner cyntaf 2025, popeth sydd wedi'i gyflawni, diolch i'n timau a'n gwirfoddolwyr anhygoel ynghyd â rhannu ein cynlluniau cyffrous ar gyfer gweddill y flwyddyn!

**Uchafbwyntiau 2025 Hyd Yma**

Fe wnaethom ddechrau'r tymor gyda'r newyddion da bod ein heginblanhigion o dreial plannu'r llynedd wedi goroesi'r gaeaf yng Nghaergybi! Gyda gwaith plannu 2025 wedi dod i ben yn swyddogol, rydym wedi plannu dros 0.5 ha yn 2025 ac wedi gweld arwyddion o egino llwyddiannus yn barod o'n plannu ym mis Chwefror.

Fel arfer, rydym wedi bod yn treialu rhai dulliau plannu morwellt newydd, gyda'r un diweddar yn cynnwys dyluniad arbrofol 'cylch morwellt' ('seagrass hug'). Rydym hefyd wedi parhau i gynyddu'r defnydd o'n peiriant plannu hadau - mewn un diwrnod llwyddodd i blannu 115,151 o hadau!

Yn naturiol, rydym yn edrych ymlaen at ein digwyddiadau hel hadau rhwng y 26ain - 30ain o Orffennaf, lle'r ydym yn gobeithio hel dros filiwn o hadau ym Mhorthdinllaen gyda help ein gwirfoddolwyr anhygoel!







**Ymgysylltiad Cymunedol**

Yn dilyn y sesiynau galw heibio yn Ynys Môn ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr rydym wedi parhau gyda sgyrsiau dilynol gyda mynychwyr a chysylltiadau lleol sydd wedi dangos diddordeb mewn datblygu grŵp cymunedol lleol yn yr ardal, yr ydym yn bwriadu ei sefydlu dros y misoedd nesaf.



Wrth i ni barhau i gyflwyno sesiynau difyr mewn ysgolion ym Mhen Llŷn, rydym bellach wedi dechrau cynnig yr un peth i ysgolion ar draws Ynys Môn, gan fod llawer ddim ond tafliad carreg i ffwrdd o'r safleoedd plannu. Mae'r sesiynau hyn yn help i godi ymwybyddiaeth yn lleol, gan osod y sylfeini ar gyfer cyfranogiad cymunedol pellach yn y prosiect.

Mae grŵp cymunedol gwirfoddolwyr morwellt Llŷn hefyd yn parhau i gymryd rhan mewn teithiau cerdded a phlannu a arweinir gan bartneriaid ac yn annibynnol sy'n cael eu cynnal ar hyd yr arfordir gogleddol y penrhyn. Rydym hefyd wedi cynnal nifer o deithiau cerdded morwellt a sesiynau phlannu ar gyfer y cyhoedd. Mae hi wedi bod yn braf gweld hyn wrth i ni baratoi at ein digwyddiad pigo hadau blynyddol ym Mhorthdinllaen!

**Plannu**

Cynhaliwyd tri digwyddiad plannu eleni rhwng Mawrth ac Ebrill ym Mhenrhyn a Phenrhos ym Mae Caergybi. Yn ystod y teithiau hyn...

- cafodd 160,000 o hadau eu plannu ym mis Chwefror
- cafodd 106,240 o hadau eu plannu a 778 o blanhigion eu trawsblannu ym mis Mawrth
- cafodd 724,499 o hadau eu plannu ym mis Ebrill

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, fe wnaethon ddefnyddio cymysgedd o blannu hadau DIS a'n peiriant plannu â llaw. Mae'r dulliau yma yn gweddu ei gilydd yn berffaith ac yn galluogi i ni blannu ar ddwysedd o 320 hadyn bob $m^2$. Mae'r peiriant hadu yn declyn gwych rydym yn defnyddio law yn llaw gydag ymdrech ein gwirfoddolwyr i blannu ar raddfa fwy. Mae'r peiriant wedi gorchuddio dros 300 $m^2$ tymor yma.


Rydym wrth gwrs yn chwilio o hyd am y ffyrdd mwyaf effeithiol o adfer morwellt, ac o ganlyniad, fel sy'n arferol i ni - buom yn arbrofi! Mae'r arbrawf cylch morwellt 'seagrass hug' yn rhan o brosiect ehangach ledled Ewrop sy'n cynnwys trawsblannu wal o blanhigion aeddfetach o gwmpas llain 1$m^2$ o hadau DIS. Nod hyn yw gwella cyfraddau egino o fewn y cylch o blanhigion sydd wedi'u trawsblannu gan fod y rheiny yn gwarchod yr eginblanhigion rhag ffactorau ffisegol megis symudiad tonnau. Cafodd lleiniau DIS rheoli eu plannu hefyd er cymhariaeth, felly cadwch lygad am ein canlyniadau monitro yn yr Hydref!







## Gweithdy Adfer Morwellt Ewropeaidd




Mynychodd Prosiect Morwellt y Gweithdy Adfer Morwellt Ewropeaidd rhwng y 7fed-11eg o Ebrill a chyflwyno poster yn manylu ar y canfyddiadau penodol o SOR Gogledd Cymru yn 2024. Rhoddodd hyn gyfle i ni ymgysylltu â'r gymuned wyddonol, rhannu gwersi a ddysgwyd ynghyd â'n nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd y poster yn cyd-fynd yn dda gyda themâu mwyaf y gynhadledd, gan gynnwys goblygiadau'r hinsawdd ar blannu morwellt.

## Pecyn Addysg

Rydym yn falch o roi gwybod i chi fod Pecyn Addysg Tir a Môr, sydd wedi ei arwain gan Pen Llŷn a'r Sarnau, bellach yn fyw! Mae gan y gweithgareddau addysgol hyn ffocws arbennig ar forwellt ynghyd â phwysigrwydd ansawdd dŵr. Maent wedi cael eu treialu ar hyd y blynyddoedd mewn nifer o ysgolion, gydag adborth cadarnhaol gan staff a dysgwyr.

Y bwriad yw dosbarthu'r rhain ar draws pob un o'r 123 ysgol gynradd yn Ynys Môn a Gwynedd, gyda diolch arbennig i'r ddau Gyngor Sir am wneud hyn yn bosibl drwy ariannu offer a chopïau caled o'r pecynnau hyn. Mae trafodaethau ynghylch gwelliannau hygyrchedd pellach yn parhau er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r pecyn llawn ar-lein yn rhwydd.

Mae nifer o weithgareddau addysgol wedi'u cyflwyno wrth i ni baratoi i lansio'r pecyn, gan gynnwys gweithdai creadigol ac yn y maes yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Ymhlith y rhain fydd:

- Diwrnod bioamrywiaeth forol ysgol-gyfan yn Ysgol y Gorlan, Tremadog (107 o ddisgyblion)
- Plannu morwellt gyda disgyblion o Ysgol Llangybi (11 o ddisgyblion)
- Sesiynau morwellt ac ansawdd dŵr yn Ysgol Llangybi ac Ysgol Morfa Nefyn gyda
- gweithdai wedi'u harwain gan artistiaid (14 a 27 o ddisgyblion yn y drefn honno)

**Natur am Byth! Prosiect Celf**




Mae ysgolion wedi bod yn cymryd rhan yn prosiect celf Natur am Byth! Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar thema ansawdd dŵr a morwellt. Mae disgyblion wedi bod yn cyfrannu ar greu ffenestr wydr lliw yn Nefyn, wedi cymryd rhan mewn sesiynau creu Crysau-T ac wedi creu darnau allan o glai i archwilio pwysigrwydd diwylliannol ac ecolegol dŵr glan.

**Diweddariad Hyrwyddwyr Achub Cefnfor**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi bod yn brysur gyda'r rhaglen Hyrwyddwyr Achub Cefnfor. Gorffennodd ein carfan 2024/25 eu cyfnod gyda rhai gweithgareddau gwych, gan ddechrau'r flwyddyn newydd gyda digwyddiad blynyddol Glanhau'r Traeth Plast Off Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Daeth tua 200 o aelodau'r cyhoedd i lanhau'r arfordir gyda'r gwirfoddolwyr ifanc yn rhannu offer, pwyso'r sbwriel ac yn rhoi gwybodaeth i bobl - gan gynnwys rhannu eu gwybodaeth am forwellt wrth gwrs!





Fe wnaethon orffen y rhaglen ddiwedd mis Mawrth gyda'r arlunydd bywyd gwyllt morol, Olivier Leger. Cyfrannodd yr Hyrwyddwyr eu meddyliau a mynegi eu hysbrydoliaeth o weld y darn ceffyl môr sydd ganddo ar y gweill.



Yna fe aeth y grŵp allan, er gwaethaf y tywydd garw, i blannu 16,000 o hadau, ynghyd â rhai o'n cyn Hyrwyddwr Achub Cefnfor. Mae'n braf cael gweld fod y bobl ifanc hyn yn parhau i fod yn rhan o'r prosiect ac roeddent yn rhai o'r planwyr morwellt mwyaf profiadol yn y maes!

Yn gynnar yn y gwanwyn, fe aeth tri o wirfoddolwyr ifanc i ddiwrnod "eco" lle'r oedd ganddynt stondin ynghylch morwellt a rhaglen yr Hyrwyddwyr Achub Cefnfor i rannu eu gwybodaeth a'u hangerdd gyda'r gymuned leol. Bu hyn yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn hynod o falch o weld y genhedlaeth nesaf yn camu i'r adwy i gymryd rhan mewn digwyddiad o'r fath heb fod o dan oruchwyliaeth uniongyrchol aelod o staff Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Mae carfan 2025/26 yr Hyrwyddwyr a'u Mentoriaid wedi cael eu recriwtio ac yn brysur yn dod i adnabod ei gilydd wrth grwydro gwahanol rannau o arfordir Ynys Môn. Maent wedi cael eu sesiwn snorclo gyntaf ac yn edrych ymlaen yn arw at gael cychwyn arni gyda'r holl weithgareddau Morwellt Achub Cefnfor eleni.





**Cysylltwch â Ni**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni - byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.


- Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau: Alison Palmer Hargrave (alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru: Nia Jones (nia.jones@northwaleswildlifetrust.org.uk)
- Prosiect Morwellt: Elena Love (elenalove@projectseagrass.org)


Mae gennym ni bellach restr bostio - os hoffech ymuno i dderbyn diweddariadau, cysylltwch â Tim ACA PLAS trwy info@penllynarsarnau.co.uk.


Diolch i Stena Line am gefnogi a hwyluso'r plannu yng Nghaergybi.

Gwnaed y prosiect yn bosibl diolch i
Project made possible thanks to

Prosiect a ddarperir gan
Project delivered by